




Cefnogi cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl
o ddatblygiad cyfannol un plentyn gan
gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf

Tabl Cynnwys

<i>Rhagarweiniad</i>	2
<i>Materion Moeseg</i>	2
<i>Casglu data</i>	3
<i>Dadansoddi'r data</i>	5
Datblygiad personol a chymdeithasol.....	6
Datblygiad Mathemateg	7
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	8
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.....	8
Datblygiad corfforol	9
<i>Ffordd ymlaen</i>	9
<i>Casgliad</i>	12
<i>Llenyddiaeth</i>	13
<i>Atodiadau</i>	16
Atodiad A	16
Atodiad B	17
Atodiad C	18
Atodiad D	19
Atodiad E	20

Rhagarweiniad

Lleolir yr ysgol mewn pentref bach yn Ne-orllewin Cymru. Mae 182 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr ac maent wedi eu trefnu mewn dosbarthiadau un oedran. Mae'r ysgol yn cymryd plant newydd, dair gwaith y flwyddyn ar gychwyn bob tymor. Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae tua 30% o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae tua 10% o'r disgyblion yn gymwys am prydau am ddim ac mae'r nifer yma yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru. Mae 14% o'r disgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf yn 2017.

Mae'r gyllideb ysgol unigol yn £3,223 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn y Sir yw £9,689 ar leiafswm yw £3,083 (Estyn, 2017).

Yn yr aseiniad yma byddaf yn amlinellu yn gwtâ'r dulliau Mosaic cymerais i astudio un plentyn ffocws.

Am bwrpas y traethawd yma, byddaf yn cyfeirio at y disgybl ffocws fel disgybl A, er mwyn cadw hunaniaeth y disgybl yn cyfrinachol. Nesaf byddai yn disgrifio'r dull fe ddefnyddiais i gasglu data ac wedyn cyflwyno'r data. Yn dilyn byddaf yn disgrifio'r dull fe ddefnyddiais i ddadansoddi'r data cyn dod at gasgliad. Yn yr aseiniad yma byddaf yn canolbwyntio ar ddatblygiad cyfannol un plentyn gan drafod y camau dysgu nesaf a sut fydd y rhain yn cael eu cyflawni. Yn yr ysgol rwyf wedi cael fy lleoli yn y dosbarth Meithrin / Derbyn sy'n cynnwys 34 disgybl. Mae'r disgyblion Derbyn wedi cael ei rhannu. Mae yna un dosbarth lle mae'r plant Derbyn hynaf gyda blwyddyn 1. Yn yr un modd mae'r disgyblion yn fy nosbarth i yn gymysgwch o'r plant Derbyn ifancaf a disgyblion Meithrin. Ar ôl trafod gyda'r mentor penderfynwyd ar ddisgybl yn Derbyn o fewn y dosbarth bydd y disgybl ffocws.

Materion Moeseg

Mae cynnal ymchwil yn cynnwys plant, bob amser yn codi materion moesegol ynghylch a sut mae'r plant yn cael eu trin ac felly mae ystyried y materion yma yn holl bwysig (Wallimam, 2017). Wrth gynnal y gwaith ymchwil yn yr ysgol oedd rhaid sicrhau fy mod I yn cael caniatâd o rieni'r disgybl ac yna cydsyniad o'r disgybl. Fodd bynnag roeddwn wedi sicrhau

ein bod yn cydymffurfio gyda chanllawiau BERA (2018) gan egluro i'r disgybl bod ganddynt yr hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwil. Yn ystod yr ymchwiliad roedd gan y plantyn yr hawl i fynegi barn ac i'r farn honno gael ei ystyried gyda hyn yn cydymffurfio gydag Erthygl 12, UNCRC. Gwnes yn siŵr fy mod i yn dilyn canllawiau'r gweithle addysg, canllawiau BERA (2018) a chanllawiau cod ymarfer moeseg ac integreidd y Brifysgol ynglŷn â chaniatâd a chydysyniad. Rwy hefyd wedi atodi llythyr caniatad wrth y mentor dosbarth (Gwelir atodiad E).

Casglu data

I gasglu'r data fabwysiadais dull Mosaig (Clark a Moss, 2011). Mae hwn yn ddull sydd yn cytuno bod plant yn arbenigwyr ar fywydau eu hunain ac felly mae'n ddull sydd yn defnyddio llais y plentyn fel rhan o'r ymchwil yn ogystal â barn oedolion. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwrandio ar blant wedi dod yn bwysicach wrth lunio polisi, ymchwil, ac ymarfer o fewn y byd addysg (United Nations 1990). Mae'r dull hefyd yn seiliedig ar y syniad bod plant ifanc yn gyfathrebwyr medrus, cyfranogwyr gweithredol ac ymchwilwyr. Fel canlyniad mae'n bwysig pam yn ymchwilio i ddeall sut mae plant yn gweld eu hunain er mwyn cael yr ymchwil orau.

Mae'r dull yma o ymchwilio yn dilyn syniad adeiladol Vygotsky yn nhermau fod plant a rôl weithredol wrth chwilio am atebion (Vygotsky, 1993). Mae'r term "mosaic" yn golygu tynnu darnau at ei gilydd o wahanol ffynonellau er mwyn creu darlun llawn o'r plentyn. Mae yna tri chyfnod i'r dull mosaig sef:

- Cyfnod 1 - Plant yn casglu gwybodaeth ac yna'r oedolion a'r plant yn dechrau ei ddadansoddi a'i asesu gyda'i gilydd
- Cyfnod 2 - Plant ac oedolion yn trafod ac yn dehongli'r wybodaeth a gasglwyd
- Cyfnod 3 - Plant ac oedolion yn cwestiynu'r canfyddiadau a thrafod y newidiadau a all ddigwydd o ganlyniad

Mae'r dull Mosaic yn cyfuno'r ymchwil draddodiadol a gyfarwyddir gan oedolion fel arsylwadau a chyfweliadau gyda'r teulu, a'r plentyn gydag offer cyfranogol fel lluniau a theithiau. Mae hwn yn cael ei ddefnyddio er mwyn deall profiadau a safbwyntiau'r plentyn.

Un o'r agweddau pwysicaf o'r dull mosaic yw bod y plant yn cael yr amser a'r cyfle i fynegi eu hunain mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r dull yma yn cydnabod gwaith Malguzzi (1996) 'Hundred languages' lle mae plant yn medru cyfathrebu eu teimladau a safbwyntiau mewn gwahanol ffyrdd er mwyn i oedolion deall.

"The mosaic approach explored by Clark and Moss gives children the chance to explain their own experiences" (Lindon a Brodie, 2016, tud.79).

Yn ôl Clark a Moss (2011) mae plant yn arbenigwyr ar fywydau eu hunain, yn gyfathrebwyr medrus, gwneuthurwyr ystyr a hefyd mae ganddynt hawliau. Mae'r dull mosaic yn galluogi plant i gael llais, a dangos eu safbwyntiau mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd.

Un o'r ffyrdd i gasglu data ar gyfer y dull mosaic yw arsylwi. Mae arsylwadau yn cynnwys disgrifiadau ysgrifenedig o'r plentyn yn chwarae am gyfnod o amser er mwyn deall safbwyntiau a phrofiadau'r plentyn. Un ffordd arall o gasglu data ar gyfer y dull mosaic yw cyfweld a'r plentyn mewn amgylchedd ffurfiol. Mae cyfranogiad plant mewn ymchwil addysg yn medru cyflawni ymchwil effeithiol iawn ond er hyn, mae hefyd yn medru achosi heriau. Un o'r heriau mwyaf yw penderfynu pa ddulliau casglu data sydd yn gwrando ar safbwyntiau a phrofiadau plentyn orau (Clark a Moss, 2011). Mae nifer o wahanol ddulliau wedi cael eu cofnodi er mwyn gwrando ar safbwyntiau a phrofiadau plant ac y rhai mwyaf traddodiadol yw cyfweiliadau a holiaduron. Yn ogystal â'r dulliau yma, mae yna ddulliau newydd. Esiaml o hyn yw'r dull o ddefnyddio gweithgareddau i gasglu data a hefyd lluniau. Mae'r rhain wedi llwyddo i gasglu data mwy cyfoethog ar safbwyntiau a phrofiadau disgyblion (Clark a Moss, 2011).

Mae'r dull mosaic yn cyfuno dulliau traddodiadol a ddulliau cyfrannu o gasglu data er mwyn cael darlun mwy cyfannol o'r plentyn. Mae'r dulliau yma wedi cael eu defnyddio er mwyn cael y data orau allan o'r plant a gosod y plant yng nghanol y drafodaeth gyda'r oedolion.

Un o'r ffyrdd gorau i gael gwybodaeth am blant yw arsylwi ac felly yn ystod yr amser yn yr ysgol ganolbwyntiaid ar wneud arsylwadau ar blentyn. Ac mewn ystod o wahanol wersi a hefyd ar wahanol achlysuron. (Greig et al, 2007). Roedd yr arsylwadau wedi caniatâ i mi i ddod i adnabod y plentyn gan amlygu cryfderau, diddordebau ac unrhyw anghenion. Yn ogystal

roedd yn fy ngalluogi i fedru nodi cynllun ar gyfer y ffordd ymlaen. (Llywodraeth Cymru, 2015). Wrth arsylwi ar y plentyn, roeddwn yn medru casglu tystiolaeth ar sgiliau penodol er mwyn gallu asesu a mesur y cynnydd dros gyfnod o amser. Fe arsylwais y plentyn ar draws pum maes dysgu sef:

- Datblygiad mathemategol
- Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- Datblygiad personol a chymdeithasol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r byd
- Datblygiad Corfforol

Yn ôl Greene a Hogan (2012) mae'r dull mosaic yn ddull sydd yn cyfuno nifer o wahanol ddulliau ac felly yn ddull dulliau cymysg. Er mwyn casglu data gan ddefnyddio'r dull mosaic byddaf yn cynnal cyfweiliadau gyda'r plentyn, cynnal arsylwadau a chasglu enghreifftiau o waith y plentyn. Mae data meintiol yn gallu fod yn addysgiadol. Bydd yna bwyslais ar y data ansoddol oherwydd mae tueddiad i ddata ansoddol bod yn fwy agored, traethiadol a cyfannol (Greene a Hogan, 2012). Mae'r dull mosaig yn medru gweithio yn dda ar gyfer plant ifanc iawn. Mae oedran plentyn yn aml yn un o'r rhwystrau wrth gasglu'r data. (Fraser et al, 2004). Fe ganolbwyntiais ar arsylwadau oherwydd oedran y plentyn. Cefnogir hyn gan Greig et al (2007) a oedd yn dweud taw arsylwi yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gasglu data ar blant ifanc gan nad ydynt yn medru cyfathrebu yn ormodol eto.

Dadansoddi'r data

Yn ystod yr arsylwadau ar nifer o wahanol achlusuron fe welais fod disgybl A yn cael ei thynnu at ardal benodol o'r dosbarth wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau ar gyfer y ddarpariaeth barhaus. Ar ôl dilyn symudiadau'r plentyn A yn ystod y gwersi roeddwn yn gallu gweld roedd tueddiad ganddi i fynd at y cornel marcio. Roedd y cornel marcio gan amlaf â mwy o ferched na bechgyn. Yr ardaloedd sydd ar gael yn y ddarpariaeth barhaus tu mewn yw hambwrdd twff, cwtsh creadigol, cornel rhif, twba tywod a chornel marcio. Yn y cornel marcio mae yna daflenni lliwio a hefyd taflenni ffurfio llythrennau ag ambell air yn seiliedig ar y gwersi

iaith fel geiriau gwyh neu lythyren yr wythnos. Mae'r cornel marcio yn medru gwella a datblygu sgiliau echddygol manwl plentyn sy'n gallu arwain at nifer o sgiliau eraill. Mae hwn yn medru helpu'r plentyn i fod mwy annibynnol yn tasgau bob dydd, er enghraifft; defnyddio cyllell a fforc a gwisgo ei hun. Gan fod chwant gyda'r disgybl i fynd at y cornel marcio, mae'n bwysig bod yr adnoddau gwneud marciau yn cael eu dewis a'u trefnu'n dda a'u cyflwyno'n ddeniadol er mwyn i blant allu penderfynu'n annibynnol sut y maent am gynrychioli eu syniadau. Yn ystod y cyfnod roeddwn yn arsylwi ar blentyn A, llythyren yr wythnos oedd 'P' ac roedd disgybl A yn medru ffurfio'r llythyren yn dda ar ôl ymarfer yn annibynnol a modeli'r athrawes yn y cornel marcio. O ran datblygiad personol mae disgybl A yn dangos aeddfedrwydd o ran medru casglu adnoddau priodol i gwblhau'r dasg ddisgwyliedig a hefyd yn rhoi nhw i ffwrdd yn daclus pan mae'n amser tacluso.

Wrth adlewyrchu, mae Fraser et al (2004) yn sôn sut mae cyfweiliadau gydag unigolion yn well ar gyfer plant henach, a bod trafodaethau grwpiau ffocws yn well ar gyfer plant ifanc. Felly, efallai byddai cynnal cyfweiliad grŵp wedi bod yn fwy buddiol ar gyfer casglu data mwy cyfoethog. Mae Fraser et al (2004) hefyd yn dweud bod cyfweld â phlant mewn grwpiau ffocws yn creu awyrgylch lle mae plant yn teimlo'n ddiogel i gyfrannu eu problemau yn agored a hefyd bod siarad o flaen grŵp yn llai bygythiol na mewn sefyllfa cyfweiliad unigol. Yn dilyn gwaith Piaget, mae nifer o ymchwilyddwr ddim yn ystyried plant o dan saith neu wyth oed fel cyfweleion. Ond ar y llaw arall mae nifer yn anghytuno ac yn meddwl bod y canlyniad o gael data gwael yn adlewyrchiad o rywun yn defnyddio technegau cyfweld amhriodol ar gyfer yr oedran ac felly nid oedran y plant yw'r achos. Mae'r dull mosaic wedi profi bod defnyddio technegau cyfrannol er mwyn casglu data ac ymgysylltu plant ifanc yn medru bod yn llwyddiannus (Fraser et al, 2004).

Datblygiad personol a chymdeithasol

Yn yr arsylwadau, gofnodais ar fwy nag un achlysur bod disgybl A yn medru dangos dealltwriaeth a hiwmor yn nifer o sefyllfaoedd. Roedd hi'n aml yn chwerthin gydag oedolion a chyd fyfyrwyr. I fesur lles yr unigolion mae'r plant yn cael eu hannog i ddewis wyneb hapus neu drist i roi ar arddangosfa ar ddechrau pob dydd. Wrth arsylwi plentyn A, rwyf wedi sylwi bod hi'n dewis wyneb hapus pob dydd. Wrth gyfweld a'r plentyn, roedd hi wedi sôn ei bod

hi'n mwynhau bywyd ysgol ac yn hoffi dod i'r ysgol pob dydd. Rwyf hefyd yn medru gweld eu hapusrwydd yn ystod y diwrnod. Yn ogystal â'r cyfweiliad gyda'r plentyn, trafodais hefyd lles plentyn A gyda'r athrawes ac roedd hi hefyd yn cytuno nad oedd y disgybl yn cael unrhyw traffaeth rhag dod i mewn i'r ysgol yn y bore, ac yn edrych fel ei bod yn mwynhau yn ystod y diwrnod. Mae plentyn A yn cymdeithasu yn dda gyda'r plant eraill ond yn blentyn eithaf swil ar y cyfan ac roedd hi braidd yn swil pan ddechrauais gweithio yn y dosbarth. Mae plentyn A wedi dangos cynnydd sylfaenol wrth gyfathrebu gyda mi yn ystod yr amser rwyf wedi bod yn yr ysgol.

Datblygiad Mathemateg

Yn ystod fy nghyfnod yn yr ysgol o fewn y pwnc mathemateg rwyf wedi addysgu adio a thynnu. Yn fwy penodol, y nod a'r cysylltiad gyda'r fframwaith cyfnod sylfaen ar gyfer y gwersi adio oedd "cyfuno dau grwp o wrthrychau er mwyn canfod 'faint sydd yna yn gyfan gwbl?'". I gyflwyno'r dasg fe wnaethom gyfri brogaod bach gyda'r disgyblion oherwydd bod hwn yn cysylltu gyda'r thema ar gyfer tymor yr haf sef 'drychwch tir'. Yn y dasg ffocws roeddwn yn gweithio gyda thri disgybl mewn ymgais i gwblhau'r un nod. Yn ystod y dasg ffocws llwyddodd plentyn A i ddeall y nod (Gwelir atodiad A) ac ateb mwyafrif y cwestiynau yn gywir. Un broblem a sylwais pan oedd hi'n ffurfio'r atebion oedd bod hi'n cael anhawster wrth ysgrifennu'r rhif 5 yn glir. I helpu plentyn A gyda'r anhawster yma annogais plentyn A i ymarfer ffurfio'r rhif 5 trwy darcopio fy ysgrifen i. Fe'i cynorthwyais yn y dasg hon drwy roi man cychwyn iddi gan fy mod yn medru gweld mai dyna oedd y brif broblem.

Ymhellach i'm gyfres o wersi a'r adio gan ddefnyddio gwrthrychau, gyflwynais cyfres o wersi ar dynnu gan ddefnyddio gwrthrychau. Y tro hwn defnyddiais hongiw'r ddillad gyda phegiau fel gwrthrychau. Yn dilyn fy nghyflwyniad buom yn gweithio ar y dasg ar lafar. Sylwais fod plentyn A yn deal y gwaith yn dda ac yn medru tynnu i ffwrdd er mwyn canfod 'faint sydd ar ôl' yn hyderus gan ddefnyddio'r gwrthrychau a ddarperir. Roedd plentyn A yn frwdfrydig ac yn medru rhoi'r atebion wrth i mi dynnu'r gwrthrychau i ffwrdd gan ddweud faint oedd ar ol? Y tro yma roedd plentyn A yn medru ffurfio'r rhifau yn well oherwydd taw copïo roedd hi'n gwneud ac felly doedd hwn ddim yn hollol annibynnol (Gwelir atodiad B).

Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Yn y gwersi Cymraeg roeddwn yn canolbwyntio ar y nod cyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio'r patrwm brawddeg 'Dyma Mae gyda'. Fel rhan o'r cyflwyniadau roedd y disgyblion yn cael siawns i ymarfer y patrwm brawddeg gan ddefnyddio 'Sam y ci' sef cymeriad o'r stori. Pan ofynnwyd, llwyddodd plentyn A i ddilyn y patrwm brawddeg. Yn y dasg ffocws roedd Plentyn A yn medru darcopio un o'r brawddegau. Yn y wers nesaf, ac i ddilyn thema'r tymor, fe wnaeth plentyn A llwyddo i drosglwyddo'r patrwm frawddeg ar gyfer Bili broga (Gwelir atodiad D).

Yn y wers ganlynol, i atgyfnerthu'r patrwm brawddeg recordiais disgyblion ar lafar gan ddefnyddio llechen electronig. Roedd Plentyn A yn medru dweud y frawddeg hon yn annibynnol ac felly roedd yn amlwg wedi deall y patrwm a gofynion y dasg o'r gwersi blaenorol. Yn y recordiad fe ddywedodd plentyn A 'Dyma Sam y ci. Mae llygaid gyda Sam y ci'. Yn ystod y gwersi iaith mae plentyn A wedi cyrraedd amcanion y gwersi heb lawer o gymorth (Gweir atodiad C).

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

O fewn y maes Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd gyflwynais cylchred bywyd y broga trwy gyfres o wersi. Roedd y dasg ffocws ar gyfer cylchred bywyd y broga yn un ymarferol. Bwriad y dasg oedd i'r disgyblion trefnu'r cylchred gan adnabod a defnyddio lluniau o'r wahanol gyfnodau. Yn y dasg ffocws roedd plentyn A yn medru trefnu heb lawer o gymorth ond yn cael anhawster i gofio a llefaru'r geiriau ar gyfer y cyfnodau priodol e.e. grifft. Gan fod y geiriau yma yn rhai newydd i'r dosbarth roedd hwn yn anhawster amlwg ar draws y dosbarth. O fewn ychydig o sesiynau roedd y disgyblion wedi dechrau dod yn fwy cyfarwydd â'r derminoleg ac roedd hwn hefyd yn wir am Blentyn A.

Yn dilyn ymlaen o'r cylchred bywyd y broga, fe wnaethon edrych ar beryglon dŵr a hefyd y bad achub. Yn ystod gwersi peryglon dŵr, roedd y plant yn dysgu am wahanol beryglon a sut i gadw'n ddiogel e.e gwisgo bandiau breichiau ar bwys y pwll. Roedd y gwrthrychau ar gyfer y thema peryglon dŵr hefyd yn cael eu defnyddio fel darpariaeth barhaus ac roedd yn ddiddorol i weld y plant yn sgwrsio am y peryglon wrth drafod y wahanol

wrthrychau. Wrth drafod peryglon dŵr gyda phlentyn A yn ystod un o'r gwersi fe gawsom sgwrs am ei phrofiadau ar y traeth. Roedd plentyn A yn amlwg wedi gallu cysylltu'r hyn roedd hi wedi dysgu yn y gwersi am y pwnc gyda'i phrofiadau. Roedd plentyn A yn sôn am ddefnyddio bandiau breichiau yn y pwll nofio a hefyd am ddechrau gwersi nofio cyn hir. Fel rhan o'r thema bad achub, gofynion y dasg ffocws oedd paentio llun o fad achub ar y bwrdd rhyngweithiol gan ddilyn esiampl. Roedd plentyn A yn amlwg wedi mwynhau'r gweithgaredd yma ac wedi dilyn y llun esiampl yn dda.

Datblygiad corfforol

Yn ystod yr amser rwyf wedi bod yn yr ysgol dim ond un wers ymarfer corff rwyf wedi dysgu ac yn anffodus rydw i heb gael y cyfle i arsylwi mewn unrhyw wersi Addysg Gorfforol. Gan ddweud hyn, yn ystod y gwersi ar y thema cylchred bywyd y broga, roedd gweithgaredd tu allan lle roeddwn yn gofyn i'r plant wneud symudiadau a oedd yn cyd-fynd gyda chyfnodau bywyd y broga. Cawsom lawer o hwyl yn y wers. Esboniais l'r disgyblion fod angen neidio gyda'i thraed gyda'i gilydd pan roeddent yn neidio fel broga. Fe bwysleisiais cyfarwyddyd yma cwpl o weithiau ac roedd plentyn A ymysg y disgyblion roedd yn neidio yn anghywir. Erbyn diwedd y gweithgaredd fe wnaeth plentyn A ddeall gofynion y naid broga yn iawn. Roedd ei hiwmor hi yn amlwg yn y dasg yma.

Ffordd ymlaen

Er mwyn gallu edrych ar darlun y plentyn yn gyflawn byddaf yn defnyddio y model A.S.K sef model gan Nottingham (2013) sy'n cydnabod pwysigrwydd mae agwedd, sgiliau a gwybodaeth ar y broses o ddysgu a dylai addysg plentyn cynnwys datblygiad o'r tri. Mae plentyn sydd ac agwedd rhagorol yn cynnwys priodweddau fel y gallu i ffocysu, agwedd awyddus tuag at waith a dysgu, yn fodlon gofyn am gymorth, yn awyddus i ddysgu o gamgymeriadau a hefyd yn agored i wahanol brofiadau. Mae'r adran sgiliau wedi cael eu rhannu mewn i wahanol fathau o sgiliau megis sgiliau gwybyddol, sgiliau cymdeithasu, sgiliau cyfathrebu a sgiliau corfforol. Mae sgiliau gwybyddol yn cynnwys pethau fel deall

amrywiaeth o destunau a gofyn cwestiynau synhwyrol. Mae sgiliau cymdeithasu yn cynnwys y chwant i wrando, parchu ac annog eraill. Mae sgiliau corfforol yn cynnwys medru ysgrifennu, dawnsio, canu a chymryd rhan mewn ymarfer corff. Mae Nottingham (2013) yn pwysleisio mae angen y sgiliau sylfaenol yma er mwyn allu llwyddo mewn pynciau dysgu sydd ynghlwm ar gwricwlwm.

Y ffordd ymlaen ar gyfer datblygiad Plentyn A yn fy marn o fewn y maes mathemateg bydd i ymarfer ffurfio rhifau, bydd hwn yn codi safon gwaith plentyn A. Er mwyn gwneud hyn byddaf yn darparu amrywiaeth o gyfleon ar draws y darpariaeth parhaus, gweithgareddau cyfoethogi ar tasgau ffocws i ymarfer ffurfio rhifau. Yn y darpariaeth parhaus fel enghraifft bydd plentyn A yn medru ymarfer ffurfio mewn ystod o wahanol weithgareddau megis, ffurfio yn y tywod, ffurfio ar bapur gan defnyddio wahanol defnyddiau marcio neu hefyd gan ddefnyddio gemau fel byrddau pin. Bydd yr ymarferion yma rwy'n gobeithio yn cyfoethogi gwaith mathemateg y plentyn. Yn y tasgau ffocws byddaf yn parhau i gwneud ymarferion ychwanegol megis darcopio ar ol i plentyn A orffen pob tasg. Er mwyn gweld cynnydd yn gwaith tynnu plentyn A, byddaf yn ei herio a symud ymlaen i'r cam nesaf gan ddefnyddio rhifau yn fwy oherwydd wrth arsylwi a gwneud gwaith o gwmpas y pwnc fe sylwais fod hi wedi deall y gwaith yn iawn ac yn barod am y cam nesaf.

O ran datblygiad Plentyn A mewn iaith, rwy'n credu bod angen i'r plentyn ymarfer mwy ar lafar a hefyd datblugu hyder er mwyn teimlo yn fwy parod i siarad ac ateb o fewn cyflwyniadau. Rwy'n gobeithio bydd hwn yn codi hyder plentyn A ac hefyd safon ei iaith. Rwy'n gobeithio wrth codi safon gwaith llafar plentyn A mewn iaith bydd hwn yn golygu gwelliant mewn safon ysgrifenedig plentyn A hefyd. Rwy'n bwriadu datblygu sgiliau iaith plentyn A trwygy rhoi cyfleuoedd i wneud mwy o waith ar lafar o fewn grŵp neu parau. Mae ymchwil (Education Endowment Foundation, 2008).) yn dangos bod gwaith grŵp yn llwyddiannus ar gyfer cynnydd mewn safon gwaith. Yn ogystal a hyn, mae plentyn A wedi dangos diddordeb yn canu ac rwy'n awyddus i ddefnyddio'r diddordeb yma i'w helpu gyda'i hyder ac felly gallaf defnyddio o fewn gwersi iaith ac yn drawscwriwlaid.

Mae plentyn A yn ymddangos yn blentyn hapus yn dod i mewn i'r ysgol yn y bore a mae'n dewis y gwyneb hapus o'r fwrdd teimladau rhan fwyaf o'r amser. Yn ogystal a hyn, ar ôl trafod gyda plentyn A rwy'n hyderus ei bod hi yn mwynhau ysgol ac yn teimlo'n ddigon hapus yn ei gwaith, mae hwn hefyd yn ymddangos pan mae'n hunan asesu. Ar y cyfan, mae'n ferch eithaf tawel yn y dosbarth. Hyd yn oed pan mae'n gwybod yr ateb cywir dydy hi

ddim bob tro yn awyddus i ateb. Mae plentyn A hefyd yn medru ymddangos yn swil ar y iard chwarae ac o fewn sefyllfaoedd arall lle maent yn chwarae yn y dosbarth. Ar ôl trafod gyda'r mentor, roeddwn yn cytuno byddai plentyn A yn elwa o codi ei hunanhyder. Yn unol a'r fodel A.S.K bydd codi ei hunanhyder yn codi ei safon hi fel dysgwr. Ni ddylir anghofio bod codi parodrwydd i ateb cwestiynau mewn dosbarth yn mynd i helpu plentyn A ac o ganlyniad bydd hi'n perchnogi dysgu ei hunan yn fwy. Bydd hi hefyd yn fwy parod i wneud camgymeriadau ac yn ôl Nottingham (2013) mae hwn yn sgil pwysig ar gyfer bod yn dysgwr llwyddiannus. O bosib mae plentyn A yn ofn ateb mewn y dosbarth oherwydd y posibilrwydd o fod yn anghywir. Yn ychwanegol all codi hunanhyder plentyn A hefyd gwella ei sgiliau cymdeithasu ac bydd hi'n medru cymryd rhan mwy allweddol yn y dosbarth. Ar ôl trafod ac arsylwi plentyn A, rwyf wedi gweld ei bod hi'n ferch eithaf sensitif. Yn ystod yr amser rwyf wedi bod yn yr ysgol mae hi ar adegau wedi dod i drafod ambell broblem sydd wedi codi gyda ffrindiau yn ystod amser egwyl a chinio. Felly, ar gyfer y ffordd ymlaen, gall hi elwa o fod yn mwy gwydn yn ei ffordd, i allu ymdopi a'r problemau yma sy'n codi yn fwy annibynnol. Awgryma Nottingham (2013) bod angen i athrawon wneud mwy o waith ar ddysgu plant i ddelio a datrys problemau ei hun yn mwy effeithiol. Byddaf yn cefnogi plentyn A gyda'r problemau sy'n codi ond yn ei hannog i geisio fynd ati i ddatrys y problem yn annibynnol wrth ddangos agwedd mwy hyderus tuag at ei cyd-ddisgyblion, a ceisio siarad a thrafod ei theimladau gyda nhw yn gyntaf cyn gofyn am gefnogaeth.

Cred Nottingham (2013) dylai'r ffordd ymlaen cynnwys ffyrdd i'r plentyn datblygu ym mhob agwedd o'r fodel A.S.K er mwyn ehangu ei agwedd, sgiliau a gwybodaeth. Serch hyn, dylid ystyried bod rhai athrawon a llywodraethwyr yn credu nag oes digon o amser i ddysgu'r sgiliau corfforol a personol pan fod yna cymaint o bwyslais ar gyflawniad academiaidd plant mewn ysgolion ar gyfer profion. Wedi dweud hyn mynna Nottingham (2013) bod y sgiliau allweddol yma yn y pendraw yn helpu'r plant i gyflawni yn well yn academiaidd a dylai pwysigrwydd sgiliau, agwedd a gwybodaeth fod yr un mor bwysig a'i gilydd.

Casgliad

I orffen, ni ddylor cymdeithas credu bod ymgynghori â phlant mewn prosiectau yn beth prin. Dylai bod yn gyffredin a rhan o fywyd bob dydd. Dyle'r hyn y mae plant yn eu dweud gwneud gwahaniaeth (Lindon and Brodie, 2016). Un o'r cyfyngiadau mwyaf yn y prosiect ymchwil yma oedd diffyg amser i ganolbwyntio yn uniongyrchol ar y plentyn ffocws. Dywed Thornes (2009) taw un o'r anafanteision wrth ddefnyddio techneg arsylwi ar blentyn ffocws yw'r amser sydd angen i arsylwi yn gywir. Yn yr aseiniad yma rwyf wedi amlinellu y dull mosaig ar gyfer fy ymchwil a wedi pwysleisio pwysigrwydd rôl ac ymrwymiad y plentyn mewn unrhyw ymchwil sydd yn ymwneud a cynnydd a datblygiad ei hun. Yn ogystal â hyn rwyf wedi sôn am y pwysigrwydd o hawliau'r plentyn o gwmpas yr amgylchiadau hyn.

Roedd y data a gasglwyd yn gyfyngedig oherwydd prinder amser ac adnoddau. Serch hyn, rwyf wedi ymgeisio i gynnwys cymaint o agweddau datblygiad plentyn ag sydd yn bosib. Roedd y plentyn a ddewisais ar gyfer yr ymchwil yn blentyn oedd yn cyflawni'n dda ar gyfer ei hoedran ond ar yr un pryd roedd hi'n blentyn swil a braidd yn ddi-hyder.

Gwelais peth cynnydd yn ystod y cyfnod ymchwil drwodd. Defnyddiais dulliau ymchwil traddodiadol a llais y plentyn er mwyn creu darlun mwy cyflawn o'r datblygiad, ac o ganlyniad roedd hwn yn profi i fod yn llwyddiannus. Rhaid derbyn bod canfyddiadau y data yn brin, roeddwn yn astudio un plentyn yn unig a doeddwn i ddim yn medru cymharu plentyn A gyda phlant eraill oherwydd gofynion yr ymchwil ac felly ddim yn medru mesur dilysrwydd y canlyniadau. Roedd yr ymchwil yn dangos bod y canlyniadau gorau ar ddatblygiad plentyn yn digwydd trwy gosod y plentyn yng nghanol trafodaethau gydag oedolion, gan ddefnyddio amrywiaeth o wersi a wahanol sefyllfaoedd. Defnyddiwyd pump maes ymchwil gwahanol yn gyfangwbl, a'r peth pwysicaf ar draws y meysydd pob amser oedd yr angen i ddod i wir adnabod y plentyn.

I gloi, yn nhermau y ffordd ymlaen, mae'n bwysig i gydnabod pwysigrwydd agwedd, sgiliau a gwybodaeth ar gyfer ddatblygiad plentyn yn gyflawn (Nottingham, 2013). Dangosodd plentyn A bod ganddi elfennau o'r tri oll, ond er mwyn ddatblygu'n bellach mae angen cynhyddu ei hunan hyder. Mae'r ymchwil a ddisgrifiwyd yn yr aseiniad yma wedi dangos y manteision o adnabod ardaloedd ar gyfer gweld cynnydd ac hefyd pwysigrwydd nodi a thrafod rhwng yr athro a'r plentyn.

Llenyddiaeth

British Educational Research Association [BERA] (2018) Ethical Guidelines for Educational Research, fourth edition, London. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018> (Darllenwyd: 22 Mai 2019)

Clark, A. (2007) A hundred ways of listening: Gathering children's perspectives of their early childhood environment. *YC Young Children*, 62(3), tud.76.

Clark, A. and Moss, P. (2005) *Spaces to play: More listening to young children using the Mosaic approach*. Jessica Kingsley Publishers.

Education Endowment Foundation. (2008). Teaching and Learning Toolkit. Ar gael yn: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/teaching-learning-toolkit/collaborative-learning/>. (Darllenwyd: 22 Mai 2019).

Estyn. (2017) Adroddiad arolygiad Ysgol 1. Estyn. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales> (Darllenwyd: 1 Mawrth 2019).

Fraser, S., Lewis, V., Kellett, M., Ding, S. and Robinson, C. (2004) *Doing research with children and young people*. Sage.

Greene, S. and Hogan, D. (2012) *Researching children's experience*. Los Angeles: SAGE.

Greenfield, C (2011) Personal reflection on research process and tools: Effectiveness, highlights and challenges in using the Mosaic approach. *Australasian Journal of Early Childhood*, 36(3), tud. 109-116.

Greig, A.D., Taylor, M.J. and MacKay, T. (2007) *Doing research with children*. Sage.

Lindon, J. and Brodie, K. (2016) *Understanding Child Development 0-8 Years*. Linking Theory and Practice. Hachette UK.

Llywodraeth Cymru . (2015). Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Dywygiedig 2015). Ar gael yn: <https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf>. (Darllenwyd: 22 Mai 2019).

Nottingham, J. (2013) *Encouraging Learning: How you can help children learn*. Routledge.
PCYDDS. (2017). Research Ethics & Integrity Code of Practice. Ar gael yn: <https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/research/research-ethics-integrity-code-practice.pdf> (Darllenwyd: 21 Mai 2019).

United Nations (1990) United Nations Convention on the Rights of the Child. Ar gael yn: www.unhcr.ch/html/menu3/b/k2crc.htm. (Darllenwyd: 22 Mai 2019).

Vygotsky, L.S. (1993) The collected works of LS Vygotsky: Vol. 2 (J. Knox & C. Stevens, Trans.).

Walliman, N. (2017) *Research methods: The basics*. New York: Routledge.

Atodiadau

Atodiad A



Nod: Cyfuno dau grwp o wrthrychau er mwyn canfod 'faint' ydd yna
yn gyfan gwbl?
Adio rhifau hyd at 5.

$$1 + 1 = 2 \checkmark$$

$$2 + 1 = 3 \checkmark$$

$$3 + 0 = 3 \checkmark$$

$$4 + 1 = 5 \checkmark$$


5 5 5 5 5 5 5



Hunan Aseu

1803285

Atodiad B





Dyma Bili

broga.







MAC Nod : Cyflwyno gwybodaeth

- Defnyddio'r patrwm brawddeg 'Dyma Mae gyda



Hwb

Dyma Sam

y ti.





Hunan Aseu



Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion', Haf 2019.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor ,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu arnynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwr nodi mannau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyriwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

Ysgol Penygroes

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

ELIN REES

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LLOFNODWCH OS GWELWCH YN DDA):

E. Rees.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen
Mathew Jones M.Jones@uwtsd.ac.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw

DYLID CYNNWYS COPI WEDI'I LOFNODI YN ATODIAD YR ASEINIAD